


COFNODION CRYNO CYFARFOD PWYLLGOR LLYWODRAETHU A DIOGELWCH DIGIDOL – PREIFAT

COFNODION, PENDERFYNIADAU A CHAMAU GWEITHREDU I'W CYMRYD

 15:10 – 17:00

 3 Awst 2023

 MS Teams

Yn Bresennol (Aelodau)	Blaenlythrennau	Teitl	Sefydliad
Rowan Gardner	RG	Aelod Annibynnol, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)
David Selway	DS	Aelod Annibynnol, Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)
Marilyn Bryan-Jones	MBJ	Aelod Annibynnol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)

Yn bresennol	Blaenlythrennau	Teitl	Sefydliad
Chris Darling	CD	Ysgrifennydd y Bwrdd	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)
Jamie Graham	JG	Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Seiberddiogelwch	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)
Darren Lloyd	DL	Cyfarwyddwr Cyswllt Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Cleifion	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)

Cofnodion cryno heb eu cadarnhau:
Pwyllgor Preifat Llywodraethu a Diogelwch Digidol Awst 2023

Carwyn Lloyd-Jones	CLJ	Cyfarwyddwr TGCh	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)
Dave Parsons	DP	Rheolwr Cod WASPI (eitem 3.4 yn unig)	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)
Carys Richards	CR	Rheolwr Cymorth Llywodraethu Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth)	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)
Darren Griffiths	DG	((yn arsylwi)	Archwilio Cymru

Ymddiheuriadau	Teitl	Sefydliad
Ifan Evans	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)
Rhidian Hurle	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)
Sam Lloyd	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)
Laura Tolley	Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)

Acronymau			
SHA	Awdurdod Iechyd Arbennig	DG&S	Llywodraethu a Diogelwch Digidol
Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)	Iechyd a Gofal Digidol Cymru	GIG	Gwasanaeth Iechyd Gwladol
IM	Aelod Annibynnol	SLA	Cytundeb Trwydded Sengl
NDR	Adnoddau Data Cenedlaethol	LINC	Rhwydwaith Gwybodaeth Labordai Cymru

Cofnodion cryno heb eu cadarnhau:

Pwyllgor Preifat Llywodraethu a Diogelwch Digidol Awst 2023

RISP	Caffael y System Gwybodeg Radioleg	PAM	Egwyddorion a Safonau Rheoli Mynediad Breintiedig
------	------------------------------------	-----	---

Rhif yr Eitem	Eitem	Canlyniad	Cam Gweithredu
RHAN 1 — MATERION RHAGARWEINIOL			
1.1	<p>Croeso a Chyflwyniadau</p> <p>Croesawodd Rowan Gardner, Aelod Annibynnol a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol (RG) bawb i'r sesiwn preifat, gan gynnwys Darren Griffiths o Archwilio Cymru a oedd yn arsylwi'r cyfarfod.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.2	<p>Ymddiheuriadau am Absenoldeb</p> <p>Nodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ifan Evans, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth • Rhidian Hurle, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol • Sam Lloyd, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau • Laura Tolley, Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol 	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.3	<p>Datganiadau o Fuddiannau</p> <p>Nodwyd bod RG yn gyd-sylfaenydd Precision Life, sy'n ymdrin â gwybodaeth am gleifion at ddibenion eilaidd megis ymchwil, a chytunwyd, os ar unrhyw adeg pan nad yw'n briodol i RG fod yn Gadeirydd, y byddai David Selway, Aelod Annibynnol ac Is-Gadeirydd (DS), yn cymryd yr awenau er mwyn rheoli unrhyw wrthdaro posibl.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
RHAN 2 – AGENDA GYDSYNIO			
Dosbarthwyd eitemau ar yr agenda gydsynio cyn y cyfarfod a nodwyd nad oedd y Cadeirydd wedi derbyn unrhyw sylwadau ymlaen llaw.			
2.1	<p>Cofnodion y cyfarfod diwethaf</p> <p>Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 11 Mai 2023 fel cofnod cywir, yn amodol ar un mân welliant y gweithredwyd arno yn ystod y cyfarfod.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:</p> <p>GYMERADWYO cofnodion y cyfarfod diwethaf</p>	Cymeradwywyd	Dim i'w nodi
2.2	Adroddiad Polisi	Cymeradwy	Dim i'w nodi

Cofnodion cryno heb eu cadarnhau:

Pwyllgor Preifat Llywodraethu a Diogelwch Digidol Awst 2023

	<p>Cyflwynodd Chris Darling, Ysgrifennydd y Bwrdd (CD) yr Adroddiad Polisi gan ofyn i'r pwyllgor a oeddent yn fodlon cymeradwyo'r polisiau a ymgorfforwyd:</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol: GYMERADWYO'r Adroddiad Polisi a'r 6 pholisi</p>	wyd	
RHAN 3 - PRIF AGENDA			
3.1	<p>Cofnod Camau Gweithredu</p> <p>Nid oedd unrhyw gamau gweithredu preifat agored ar y cofnod i'w trafod.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol: NODI'r Cofnod Gweithredu.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
3.2	<p>Adroddiad Sicrwydd Seiberddiogelwch</p> <p>Cyflwynodd Jamie Graham, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Seiberddiogelwch (JG) yr Adroddiad Sicrwydd Seiberddiogelwch gan dynnu sylw at y gwaith a gwblhawyd dros y cyfnod.</p> <p>Cafwyd trafodaeth ar yr hyfforddiant a gafodd yr Aelodau Annibynnol fel rhan o sesiwn datblygu'r Bwrdd a sut y gellid defnyddio sesiynau yn y dyfodol.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol: DRAFOD yr Adroddiad Sicrwydd Seiberddiogelwch er SICRWYDD</p>	Trafodwyd	Dim i'w nodi
3.3	<p>Y Gofrestr Risg Gorfforaethol</p> <p>Nododd CD fod 28 o risgiau ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ar hyn o bryd, a 22 ohonynt i'w hystyried gan y Pwyllgor hwn. Roedd 10 ohonynt yn cael eu cyfrif yn rhai preifat a byddent yn destun trafodaeth.</p> <p>Adolygwyd y risgiau preifat a'u trafod yn fanwl.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol: DRAFOD y Gofrestr Risg Gorfforaethol</p>	Trafodwyd	Dim i'w nodi
3.4	<p>Mewnwelediad cynnar i broses Ymgynghori Cod Ymddygiad WASPI</p> <p>Cyflwynodd Darren Lloyd, Cyfarwyddwr Cyswllt Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Cleifion (DL) ynghyd â Dave Parsons,</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi

Cofnodion cryno heb eu cadarnhau:

Pwyllgor Preifat Llywodraethu a Diogelwch Digidol Awst 2023

	<p>Rheolwr Cod WASPI (DP) y diweddariad gan nodi'r adborth o broses Ymgynghori Cod Ymddygiad WASPI.</p> <p>Bydd yr adborth yn cael ei adolygu a'r canlyniad llawn yn cael ei gyhoeddi ddechrau hydref 2023 a'i gyflwyno i gyfarfod nesaf y pwyllgor ym mis Tachwedd.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:</p> <p>NODI'r Mewnwelediad Cynnar i broses Ymgynghori Cod Ymddygiad WASPI</p>		
RHAN 4 - MATERION I GLOI			
4.1	<p>Unrhyw Faterion Brys Eraill</p> <p>Nid oedd unrhyw faterion arall.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
4.2	<p>Eitemau ar gyfer Adroddiad Crynhoi Cynnydd y Cadeirydd i'r Bwrdd</p> <p>Nodwyd eitemau i'w cynnwys, os ydynt yn briodol ar gyfer y fforwm cyhoeddus, yn Adroddiad Crynhoi Cynnydd Cadeirydd ar gyfer Bwrdd SHA ym mis Medi.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
4.3	<p>Dyddiad y cyfarfod nesaf:</p> <p>Cadarnhawyd y bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol yn cael ei gynnal ar 2 Tachwedd 2023 am 1.00pm.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi